# Ymgynghoriad ar Losgi Tanwydd Solet

## Cymryd camau i leihau allyriadau mwg a gronynnau mân

Ionawr 2026

Adran yr Amgylchedd, Amaeth a Materion Gwledig ydym ni. Rydym yn gyfrifol am wella a diogelu'r amgylchedd, tyfu'r economi werdd, cynnal cymunedau gwledig ffyniannus a chefnogi ein diwydiannau bwyd, ffermio a physgota o'r radd flaenaf.

Rydym yn gweithio'n agos gyda'n 33 o asiantaethau a chyrff hyd braich ar ein huchelgais i wneud ein haer yn fwy pur, ein dŵr yn lanach, ein tir yn wyrddach a'n bwyd yn fwy cynaliadwy. Ein cenhadaeth yw adfer a gwella'r amgylchedd ar gyfer y genhedlaeth nesaf, a gadael yr amgylchedd mewn cyflwr gwell nag yr oedd.

OGL

© Hawlfraint y Goron 2025

Mae'r wybodaeth hon wedi'i thrwyddedu o dan Drwydded Llywodraeth Agored f3.0. I weld y drwydded hon, ewch i www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn Burning_Consultation@defra.gov.uk

www.gov.uk/defra

Cynnwys

Consultation on Solid Fuel Burning ........ 1

Taking action to reduce $PM_{2.5}$ and smoke emissions ........ 1

About this consultation ........ 4

How to respond ........ 5

Questions about you ........ 6

Foreword ........ 8

Context ........ 9

Overview of solid fuel burning policy proposals ........ 11

Part 1 – Policies and Consultation Questions on new emission limits ........ 11

Questions on proposed new stove emission limits ........ 13

Part 2 – Policies and Consultation Questions on mandatory labelling proposals ........ 14

Questions on proposed new mandatory labelling scheme for solid fuel appliances ........ 17

Questions on proposed mandatory health labelling for fuels ........ 20

Part 3 – Policies and consultation questions on increasing enforcement penalties ........ 20

Questions on proposed domestic Solid Fuels Regulations Enforcement ........ 22

Additional evidence ........ 23

Glossary ........ 24

# Gwybodaeth am yr ymgynghoriad hwn

Mae'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn ar gyfer Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.  Sylwch ein bod ni (llywodraeth y DU a llywodraethau datganoledig) yn bwriadu bwrw ymlaen â rhai o'r opsiynau polisi yn y ddogfen hon ar draws y DU. Fodd bynnag, rydym yn disgwyl y gall rhai cynigion fod yn berthnasol yn Lloegr yn unig ac nid ledled y DU gyfan. Mewn rhai achosion, bydd y cymhwysiad tiriogaethol yn cael ei benderfynu'n ddiweddarach yn unol â deddfwriaeth ddatganoledig. Darperir rhagor o fanylion yn yr adran “cymhwysiad tiriogaethol” ar gyfer pob opsiwn polisi.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle i randdeiliaid ddylanwadu ar bolisïau sydd â'r bwriad o leihau allyriadau gronynnau mân ($PM_{2.5}$) yn sgil llosgi tanwydd solet domestig (gan gynnwys pren a thanwyddau solet wedi'u gweithgynhyrchu).  Byddwn yn defnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn i gwblhau'r pecyn arfaethedig o fesurau sydd â'r nod o leihau allyriadau o'r ffynhonnell hon.

Mae'r cyflwyniad i'r ddogfen hon yn amlinellu'r broses ymgynghori ac yn gofyn cwestiynau demograffig (Cwestiynau 1 - 8).  Yn dilyn hyn, darperir gwybodaeth gefndirol yn yr adrannau Rhagair a Chyd-destun. Mae'r adran nesaf yn nodi'r polisïau arfaethedig ac yn cyflwyno cwestiynau ymgynghori (Cwestiynau 9 - 34). Fe'i rhennir yn dair rhan gyda 2 - 3 adran thematig ym mhob rhan.

Mae Rhan 1 yn amlinellu terfynau allyriadau newydd arfaethedig ar gyfer dyfeisiau tanwydd solet. Mae Rhan 2 yn rhoi manylion cynlluniau labelu gorfodol newydd arfaethedig ar gyfer stofiau ac ar gyfer tanwydd solet wedi'i weithgynhyrchu (MSFs). Mae Rhan 3 yn nodi'r dirwedd reoleiddio bresennol sy'n berthnasol i gyflenwi tanwyddau solet a ddefnyddir ar gyfer llosgi domestig. Yna, mae'n trafod cyflwyno hysbysiad cosb benodedig uwch.

# Y Broses Ymgynghori

**Cynulleidfa a chymhwysiad**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn agored i'r cyhoedd. Mae'n bwysig ein bod yn clywed gan y rheini y bydd y cynigion yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.

Mae hyn yn cynnwys aelodau o'r cyhoedd, cynrychiolwyr perthnasol o'r diwydiant a chymdeithasau masnach y bydd y cynigion yn effeithio arnynt, grwpiau amgylcheddol ac iechyd, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt.

**Pwrpas yr ymgynghoriad**

Rydym am gael barn rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd ar becyn o bolisïau sydd â'r bwriad o leihau allyriadau $PM_{2.5}$ o losgi tanwydd solet domestig (gan gynnwys coed a thanwyddau solet wedi'u gweithgynhyrchu). Yn ogystal â'r cynigion polisi, rydym am gael barn ac awgrymiadau ar y labeli enghreifftiol a'r datganiadau iechyd a awgrymir, ac ar yr amserlenni arfaethedig ar gyfer gweithredu'r polisïau hyn.

Rydym yn gofyn am ymatebion i'r cwestiynau isod er mwyn cael y safbwyntiau a'r barnau hyn.

**Amserlenni'r ymgynghoriad**

Bydd yr ymgynghori yn para rhwng 22 Ionawr a 19 Mawrth. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, byddwn yn cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion ac amlinelliad o'r camau nesaf ar gov.uk.

# Sut mae ymateb

Rydym yn annog ymatebion drwy arolwg ar-lein ar **Citizen Space**, adnodd ymgynghori ar-lein sydd ar gael yn https://consult.defra.gov.uk/domestic-burning/consultation-on-solid-fuel-burning/ Mae ymgynghoriadau yn ennyn llawer iawn o ddiddordeb ar draws nifer o sectorau ac mae defnyddio'r adnodd ar-lein yn ein helpu i ddadansoddi ymatebion, gan alluogi materion i gael eu hystyried yn fwy effeithiol ac effeithlon. Fodd bynnag, gellir anfon ymatebion drwy e-bost neu drwy'r post. Yn eich ymateb, nodwch:

- eich enw
- eich cyfeiriad e-bost
- eich sefydliad (os yw'n berthnasol)
- a hoffech i'ch ymateb fod yn gyfrinachol (os hoffech chi, nodwch eich rhesymau)

Gellir hefyd cyfeirio ymholiadau ac ymatebion:

• drwy anfon neges e-bost at Burning_Consultation@defra.gov.uk gan gynnwys a oes angen copi caled o'r ymgynghoriad arnoch chi

• yn ysgrifenedig at Gydlynydd yr Ymgynghoriad, Defra, 2il Lawr, Foss House, Kings Pool, 1-2 Peasholme Green, Caerefrog, YO1 7PX

Pan ofynnir i chi roi esboniad o'ch ateb, rhowch gymaint o fanylion ag y gallwch, er mwyn i ni allu deall unrhyw sylwadau neu bryderon.  Wrth ystyried ymatebion i'r ymgynghoriad hwn bydd y llywodraeth yn rhoi mwy o bwys ar ymatebion sy'n seiliedig ar ddadleuon a thystiolaeth nag ymatebion sydd ond yn mynegi cefnogaeth neu wrthwynebiad.

### Defnyddio data

Bydd gwybodaeth a sylwadau a gyflwynir drwy'r ymgynghoriad yn cael eu defnyddio i lywio a datblygu ymhellach y pecyn arfaethedig o fesurau i sicrhau ei fod yn ymarferol i'w gyflawni a'i fod yn ystyried safbwyntiau rhanddeiliaid.

Bydd eich data personol yn ddienw fel rhan o'r broses ddadansoddi. Ar ôl i'ch data personol gael ei wneud yn ddienw, ni ellir ei gysylltu â chi mwyach ac nid yw'n ddata personol mwyach. Gellir defnyddio'r data dienw mewn system deallusrwydd artiffisial i gefnogi'r dadansoddiad.

### Trefn gwyno

Dylid cyflwyno pob cwyn am y broses ymgynghori i'r Cydlynydd Ymgynghori drwy e-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk. Er mwyn bodloni safon gwasanaeth Defra, ymatebir i bob cwyn o fewn 15 diwrnod i'w derbyn.

**Defnyddio a rhannu eich gwybodaeth**

Mae sut rydym ni'n defnyddio eich data personol wedi'i nodi yn yr ymgynghoriad ac yn hysbysiad preifatrwydd yr ymarfer galw am dystiolaeth, sydd ar gael yma: https://www.gov.uk/government/publications/defras-consultations-and-call-forevidence-exercises-privacy-notice.

**Gwybodaeth arall**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn cael ei gynnal yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet, sydd ar gael yn: https://www.gov.uk/government/publications/consultation-principles-guidance.

# Cwestiynau amdanoch chi

1. Ydych chi'n dymuno i'ch ymateb fod yn gyfrinachol?

[Ydw/Nac ydw]

2. Os mai 'Ydw' oedd eich ateb i'r cwestiwn hwn, nodwch eich rheswm/rhesymau.

[Open text box]

3: Beth yw eich enw?

[Open text box]

4: Beth yw eich cyfeiriad e-bost?

[Open text box]

5: Ym mha ran o'r Deyrnas Unedig ydych chi wedi'ch lleoli?

- Lloegr
- Cymru
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon

6: Ym mha ran o'r DU mae gennych chi ddiddordeb yn bennaf?

- Lloegr (ac eithrio Llundain)
- Llundain
- Cymru
- Yr Alban
- Gogledd Iwerddon
- Y DU i gyd

7: Fel pwy ydych chi'n ymateb (dewiswch un opsiwn yn unig)?

- diwydiant
- aelod o'r cyhoedd
- corff cyhoeddus neu awdurdod lleol
- corff masnach
- corff academaidd
- corff anllywodraethol
- arall (rhowch fanylion)

8: Os ydych chi’n ymateb ar ran sefydliad, beth yw ei enw?

[Open text box]

# Rhagair

Mae pob un ohonom yn haeddu byw mewn amgylchedd lle nad yw ansawdd yr aer a anadlwn yn cael effaith negyddol ar ein bywydau bob dydd. Mae llosgi tanwydd solet, gan gynnwys defnyddio stofiau llosgi coed mewn lleoliadau domestig, yn dod yn fwyfwy poblogaidd[1] ac yn arwain at fwy o allyriadau niweidiol yn ein haer.

Mae gronynnau mân ($PM_{2.5}$) yn ronynnau o 2.5 micrometr neu lai y mae Sefydliad Iechyd y Byd yn ystyried fel y llygrydd mwyaf niweidiol i iechyd pobl.[2][3] Gall y gronynnau hyn fynd i mewn i lif y gwaed ac organau mewnol, ac mae corff cynyddol o dystiolaeth sy'n cysylltu amlygiad ag amrywiaeth o gyflyrau iechyd gwanychol gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd ac asthma. Yn 2019, roedd yr amcangyfrif o faich marwolaethau amlygiad tymor hir i lygredd aer yn y DU yn cyfateb rhwng 29,000 a 43,000 o farwolaethau ymysg oedolion 30 oed a hŷn. Yn yr un modd, mae Sefydliad Iechyd y Byd wedi gosod canllawiau ansawdd aer byd-eang ar gyfer sylffwr deuocsid, y gwyddys hefyd ei fod yn gwaethygu asthma ac sy'n gysylltiedig â marwolaethau resbiradol.4 . 5

Er bod llygredd aer yn niweidio pawb, mae tystiolaeth gref nad yw effeithiau llygredd aer ar iechyd yn cael eu teimlo'n gyfartal ar draws cymdeithas. Mae plant, y rheini sy'n feichiog, y rheini sydd â chyflyrau iechyd presennol, pobl hŷn, a chymunedau incwm isel yn teimlo effeithiau ansawdd aer gwael yn anghymesur, gan waethygu iechyd ac anghydraddoldebau cymdeithasol.

Mae ansawdd aer yn y DU wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ond gwyddom fod mwy i'w wneud. Amcangyfrifir bod cost problemau iechyd sy'n deillio o amlygiad i lygredd aer yn fwy nag £20 biliwn y flwyddyn i'r DU.[6] Dyma'r costau i unigolion ac i gymdeithas (gan gynnwys i'r GIG ac ar gyfer gofal cymdeithasol).

---

[1] Gwerthusiad o Reoliadau Ansawdd Aer (Safonau Tanwydd Solet Domestig) (Lloegr) 2020 a Monitro arferion llosgi domestig yn y Deyrnas Unedig - AQ1043

[2] Peryglon iechyd (adran Llygredd Aer), gwefan Sefydliad Iechyd y Byd

[3] Canlyniadau iechyd llygredd aer, gwefan Sefydliad Iechyd y Byd

[4] Dod i gysylltiad tymor byr â sylffwr deuocsid ($SO_2$) a marwolaethau pob achos ac anadlol https://www.sciencedirect.com/science/article/pii/S0160412021000593

[5] Canllawiau ansawdd aer byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd: Canllawiau ansawdd aer byd-eang Sefydliad Iechyd y Byd (PM2.5 and PM10), osôn,

nitrogen deuocsid, sylffwr deuocsid a charbon monocsid

[6] https://rcp.ac.uk/media/jzul5jgn/every-breath-we-take-the-lifelong-impact-of-air-pollution-full-report.pdf

Mae ansawdd aer yn gyfrifoldeb datganoledig, ac mae'r holl lywodraethau datganoledig yn bwrw ymlaen â chynlluniau i leihau allyriadau:

- Cyhoeddwyd Cynllun Gwella Amgylcheddol diwygiedig ar gyfer Lloegr ym mis Rhagfyr 2025
- Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei Chynllun Aer Glân i Gymru: Awyr Iach, Cymru Iach ym mis Awst 2020.[7]
- Cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban ei Strategaeth Cleaner Air for Scotland 2 ym mis Gorffennaf 2021.
- Ym mis Medi 2024, cyhoeddodd Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon ei Chynllun Gwella Amgylcheddol ei hun.[8]

Mae allyriadau o losgi domestig yn parhau'n ffynhonnell sylweddol o $PM_{2.5}$ a allyrrir yn y DU. Dyna pam mae Llywodraeth y DU, ynghyd â'r llywodraethau datganoledig, yn lansio'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn ar gamau pellach y gallwn eu cymryd i leihau lefelau'r allyriadau o losgi tanwydd solet.

Mae'r Llywodraeth hon yn ystyried mesurau pellach yn y maes hwn i leihau'r allyriadau niweidiol hyn ymhellach, yn enwedig yn y mannau mwyaf poblog neu lle ceir tystiolaeth o'r niwed mwyaf sylweddol.

# Cyd-destun

Mae 'llosgi domestig' yn cyfeirio at aelwydydd sy'n llosgi amrywiaeth o danwyddau solet, gan gynnwys pren, glo a thanwyddau solet wedi'u gweithgynhyrchu, at ddibenion fel gwresogi cartrefi. Roedd llosgi domestig yn un o brif ffynonellau allyriadau $PM_{2.5}$ y DU yn 2023, gan gyfrannu 20.1% o gyfanswm yr allyriadau $PM_{2.5}$, yn debyg i allyriadau $PM_{2.5}$ o drafnidiaeth ar y ffyrdd (20.5%).[9] Cododd allyriadau $PM_{2.5}$ o losgi domestig 36% rhwng 2009 a 2020, yn bennaf oherwydd cynnydd mewn allyriadau yn sgil llosgi coed. Mae polisïau a gyflwynwyd ers hynny wedi helpu i leihau allyriadau o'r ffynhonnell hon ond mae rhagor i'w wneud.

---

[7] https://www.llyw.cymru/cynllun-aer-glan-i-gymru-awyr-iach-cymru-iach

[8] Cynllun Gwella'r Amgylchedd ar gyfer Gogledd Iwerddon: https://www.daera-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/daera/Environmental%20Improvement%20Plan%20for%20Northern%20Ireland.PDF

[9] https://www.gov.uk/government/statistics/emissions-of-air-pollutants/emissions-of-air-pollutants-in-the-uk-particulate-matter-pm10-and-pm25

Canfu ymchwil[10] a gynhaliwyd gan Defra yn ystod 2022-23 fod tua 23% o aelwydydd y DU yn llosgi domestig. Mae hyn yn cynnwys 8% a losgodd dan do yn unig, 11% a losgodd yn yr awyr agored yn unig, a 4% a wnaeth y ddau. Mae hyn yn gynnydd ers 2018-19, pan nododd 19% o aelwydydd eu bod yn llosgi. Mae'r cynnydd hwn yn cael ei sbarduno'n bennaf gan gynnydd mewn llosgi dan do, o 8% yn 2018-19 i 12% yn 2022-23 (gan gyfuno'r rheini sy'n llosgi dan do yn unig a'r rheini a wnaeth y ddau). Er mai dim ond tua 1% o gartrefi'r DU sy'n defnyddio tanwydd solet fel eu prif ffynhonnell wresogi, mae'r llywodraeth yn derbyn y gallai mynnu bod yr aelwydydd hyn yn newid i ffynhonnell wresogi arall fod yn anghymesur o ddrud ac aflonyddgar.

Llosgwyr, stofiau neu leoedd tân caeedig (65%) neu leoedd tân agored (32%) sy'n gyfrifol am y rhan fwyaf o losgi dan do. Mae ein hymchwil hefyd yn awgrymu bod y defnydd o gyfarpar tanwydd solet wedi'i wasgaru'n gymharol gyfartal ar draws rhanbarthau, ar wahân i Lundain lle mae'r defnydd yn llai cyffredin. Er bod llosgi dan do yn tueddu i fod yn uwch mewn ardaloedd gwledig (23%), o'i gymharu ag ardaloedd trefol (9%), yn gyffredinol, mae mwy o losgi'n digwydd mewn ardaloedd trefol oherwydd dwysedd tai a phoblogaeth uwch. Mae llosgi yn yr awyr agored hefyd yn cyfrannu at ansawdd aer gwael.  Fodd bynnag, credwn ei bod yn anghymesur cyflwyno cyfyngiadau newydd ar fwynhad pobl o farbeciws neu ddigwyddiadau awyr agored fel coelcerth neu nosweithiau tân gwyllt.

Mae targedau $PM_{2.5}$ o dan Ddeddf yr Amgylchedd 2021[11] yn ei gwneud yn ofynnol i Grynodiad $PM_{2.5}$ yn Lloegr gael ei leihau i ddim mwy na 10 microgram y metr wedi'i giwbio ((µg/m3) erbyn 2040, ac i leihau amlygiad y cyhoedd i $PM_{2.5}$ 35% erbyn 2040, o'i gymharu â llinell sylfaen 2018. Disgwylir i darged $PM_{2.5}$ newydd yng Nghymru gael ei osod o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024 erbyn Chwefror 2027. Mae'r Alban wedi mabwysiadu amcan blynyddol ar gyfer $PM_{2.5}$ o 10µg/m3 a gyflawnwyd yn 2020.  Mae Gogledd Iwerddon yn ystyried gweithredu terfyn blynyddol newydd ar gyfer $PM_{2.5}$ yng ngoleuni canllawiau diweddar Sefydliad Iechyd y Byd (WHO), yn amodol ar ymgynghoriad cyhoeddus a chymeradwyaeth Weinidogol.

Mae nifer o fesurau wedi cael eu rhoi ar waith i leihau allyriadau o losgi domestig. O dan Ddeddf Aer Glân 1993, a Gorchymyn Aer Glân (Gogledd Iwerddon) 1981, caiff awdurdodau lleol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, a chynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon, ddatgan Ardaloedd Rheoli Mwg (SCA) sy'n cwmpasu rhan neu'r cyfan o'u hardal, lle mae'n drosedd gollwng mwg o simnai adeilad. Os yw tanwydd solet yn cael ei losgi mewn SCA, rhaid iddynt naill ai gael eu defnyddio mewn teclyn cymeradwy neu fod yn danwydd cymeradwy y gellir ei ddefnyddio mewn dyfeisiau heb eu hawdurdodi (e.e. tanau agored).

---

[10] Arferion Llosgi Domestig yn y DU

[11] https://www.legislation.gov.uk/uksi/2023/96/contents/made

Yn dilyn adborth gan awdurdodau lleol, gwnaeth Deddf yr Amgylchedd 2021 newidiadau i'r fframwaith SCA yn Lloegr i symleiddio gorfodaeth, gan gynnwys caniatáu i gynghorau roi hysbysiadau cosb benodedig i'r rheini sy'n torri'r rheolau, a rhoi'r pŵer i awdurdodau lleol ehangu cwmpas eu SCA i gynnwys cychod wedi'u hangori, gan gynnwys cychod dyfrffyrdd mewndirol fel cychod camlas. Gwnaeth Llywodraeth Cymru newidiadau tebyg o dan Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2024. Mae Llywodraeth yr Alban wedi adolygu Deddf Aer Glân 1993 ac wedi nodi pedwar maes blaenoriaeth ar gyfer llosgi domestig, a fydd yn cael eu hystyried ymhellach fel rhan o waith datblygu fframwaith ansawdd aer nesaf ar gyfer yr Alban.

Ar ben hynny, drwy Reoliadau Ansawdd Aer (Safonau Tanwydd Solet Domestig) (Lloegr) 2020 ("Rheoliadau Tanwydd Solet Domestig"), cafodd safonau tanwydd yn Lloegr eu gwella. Cyflwynodd y Rheoliadau Tanwyddau Solet Domestig gyfyngiadau ar werthu pren gwlyb, terfynau ar gynnwys sylffwr ac allyriadau mwg o MSFs, a rhoi'r gorau'n raddol i werthu glo meddal (glo tŷ traddodiadol) i'w losgi mewn safleoedd domestig yn Lloegr. Yng Ngogledd Iwerddon, mae ymrwymiad o dan y Strategaeth Ynni a'r Llwybr at Ynni Sero Net[12] i roi'r gorau'n raddol i lo a rhai tanwyddau solet ar gyfer gwresogi cartrefi.

Er bod y mesurau hyn wedi helpu i leihau allyriadau a gwneud cynnydd tuag at gyrraedd targedau $PM_{2.5}$ Cymru a Lloegr, bydd angen cymryd camau pellach i fod yn hyderus y byddwn yn cyrraedd ein targedau statudol hirdymor ac yn sicrhau manteision iechyd y cyhoedd.

# Trosolwg o gynigion polisi llosgi tanwydd solet

Mae'r adran hon yn gofyn am farn am becyn o bolisïau i leihau ymhellach allyriadau $PM_{2.5}$ o losgi tanwydd solet domestig (gan gynnwys coed ac MSF).

O ran offer tanwydd solet, gan gynnwys stofiau llosgi coed, yr ydym yn ceisio barn pobl am gyfyngiad allyriadau stof newydd a chyflwyno cynllun labelu gorfodol. O ran tanwyddau, yr ydym yn ceisio barn am labelu iechyd gorfodol.

Mae ansawdd aer yn faes polisi lle mae cyfrifoldeb wedi'i ddatganoli ac o'r herwydd mae hwn yn ymgynghoriad ar y cyd ar ran Llywodraeth yr Alban, Llywodraeth Cymru ac Adran yr Economi a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig yng Ngogledd Iwerddon.   Darparwyd rhagor o fanylion am gymhwyso pob cynnig polisi yn diriogaethol.

---

[12]Strategaeth Ynni - Llwybr at Ynni Sero Net: https://www.economy-ni.gov.uk/sites/default/files/publications/economy/Energy-Strategy-for-Northern-Ireland-path-to-net-zero.pdf

## Rhan 1 - Polisïau a Chwestiynau Ymgynghori ar derfynau allyriadau newydd

Terfynau allyriadau newydd ar gyfer dyfeisiau tanwydd solet

Ar hyn o bryd, mae amrywiaeth o reoliadau y mae'n rhaid i declynnau tanwydd solet lynu wrthynt er mwyn cael eu rhoi ar y farchnad yn y DU, fel y Rheoliadau Ecoddylunio[13][14]. Ar ben hynny, mae Deddf Aer Glân 1993 a Gorchymyn Aer Glân (Gogledd Iwerddon) 1981 yn gosod safonau penodol ar gyfer offer tanwydd solet os ydynt i'w defnyddio gyda thanwyddau anawdurdodedig, fel pren, mewn Ardaloedd Rheoli Mwg (SCAs) a ddatganwyd gan awdurdodau lleol/cynghorau ardal (o'r pwynt hwn a elwir yn 'awdurdodau lleol') yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

Mae'r safonau stof presennol yn caniatáu cyfradd allyriadau mwg o ddim mwy na 5 gram yr awr (a 0.1g am bob 0.3 kW o allbwn) y mae ar waith. Mae profion yn dangos bod y mwyafrif helaeth o offer tanwydd solet newydd yn perfformio'n sylweddol well na'r safon o 3 gram o fwg (a 0.1g am bob 0.3kW o allbwn) am bob awr y mae ar waith. Felly, rydym yn ymgynghori ar derfyn allyriadau mwg newydd o 1 gram o fwg (ynghyd â 0.1g am bob 0.3 kW o allbwn) yr awr y mae'n gweithredu ar gyfer offer tanwydd solet newydd. Byddai'r terfyn allyriadau mwg newydd arfaethedig yn berthnasol i wresogyddion gofod lleol tanwydd solet blaen caeedig a gwresogyddion gofod lleol tanwydd solet blaen agored. Mae data profi'r diwydiant yn awgrymu y byddai 70% o'r stofiau a brofwyd ers 2018 yn cyrraedd y safon newydd hon. Er mwyn sicrhau bod y polisi hwn yn cael yr effaith fwyaf bosibl, byddwn yn ceisio gwella'r fethodoleg brofi drwy sefydlu un drefn brofi i ddiwallu amrywiaeth o anghenion ansawdd aer, gan gynnwys y terfyn allyriadau llym newydd. Byddai'r safon newydd arfaethedig hon yn berthnasol i osod peiriannau tanwydd solet newydd ar y farchnad yn unig. Ni fyddai hyn yn effeithio ar offer tanwydd solet sydd eisoes wedi'u gosod neu wedi'u rhoi ar y farchnad cyn i unrhyw ddeddfwriaeth newydd ddod i rym.

Er mwyn sicrhau bod cyfnod priodol yn cael ei ganiatáu i'r diwydiant addasu i'r cyfyngiadau newydd, rydym yn cynnig gohirio'r safon newydd rhag dod i rym am 3-5 mlynedd o'r dyddiad y caiff deddfwriaeth newydd ei llunio.

Yn ogystal â lleihau'r terfynau allyriadau ar gyfer dyfeisiau tanwydd solet, rydym yn bwriadu cyflwyno profion rheolaidd ar offer tanwydd solet ar ôl iddynt ymuno â'r farchnad. Ar hyn o bryd, dim ond pan fyddant yn ymuno â'r farchnad am y tro cyntaf y caiff offer ei

---

[13] Mae'r 'Rheoliadau Ecoddylunio' yn ymdrin â Rheoliadau Ecoddylunio ar gyfer Cynhyrchion sy'n gysylltiedig ag Ynni 2010 (SI 2010/2617) a Rheoliad y Comisiwn (EU) 2015/1185 ar ofynion ecoddylunio ar gyfer gwresogyddion gofod lleol tanwydd solet (EUR 2015/1185)

[14] Ecoddylunio cynnyrch sy'n defnyddio llawer o ynni - https://www.gov.uk/guidance/placing-energy-related-products-on-the-uk-market

brofi. Mae hyn yn annigonol gan y gallai newidiadau yn y broses weithgynhyrchu gael effaith ar allyriadau. Byddai ailbrofi cyfarpar ar y farchnad yn rheolaidd yn rhoi sicrwydd bod offer yn dal i gael eu cynhyrchu i fodloni'r gofynion penodol. Ni fyddai angen ailbrofi offer sydd eisoes wedi'u gosod.

Disgwylir i'r mesur hwn sicrhau gostyngiad blynyddol cyfartalog o 1.08 cilo tunnell o $PM_{2.5}$ dros y cyfnod 10 mlynedd 2027-2036 (sy'n cyfateb i ostyngiad o 1.9% o gyfanswm allyriadau $PM_{2.5}$ y DU yn 2023).

### Cymhwyso tiriogaethol

Gan fod rheolau Ecoddylunio yn berthnasol mewn gwahanol ffyrdd ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon, rydym yn cynnig defnyddio'r terfyn allyriadau newydd hwn ar draws Prydain Fawr yn unig. Yng Ngogledd Iwerddon, byddai'r terfynau newydd yn berthnasol mewn Ardaloedd Rheoli Mwg, fel y nodwyd gan gynghorau dosbarth yng Ngogledd Iwerddon.

## Cwestiynau am derfynau allyriadau arfaethedig ar gyfer stofiau newydd

9. Ydych chi'n teimlo bod y terfyn allyriadau newydd arfaethedig o 1g yr awr (ynghyd â 0.1g fesul 0.3 kW o allbwn) ar gyfer stofiau yn briodol?
   [Ydw/Nac ydw/Ddim yn gwybod]
   Os nad ydych chi, esboniwch beth ddylai'r terfyn allyriadau fod yn eich barn chi, a pham [Blwch testun agored]

10. A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr effaith (boed hynny'n gadarnhaol neu negyddol) sy'n deillio o'r safon newydd arfaethedig? Gallai hyn fod o ran ansawdd aer, iechyd pobl, yr economi neu'r diwydiant stofiau, er enghraifft.
    [Open text box]

11. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod amserlen 3 a 5 mlynedd ar gyfer y terfynau newydd sy'n dod i rym yn dilyn deddfwriaeth newydd yn briodol?
    [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod]
    Os ydych chi'n anghytuno, esboniwch pam a rhowch eich barn am amserlen wahanol [blwch testun agored]

12. A oes gennych farn ynghylch pa safon neu gyfundrefn y gellid ei defnyddio fel un gyfundrefn brofi ar gyfer allyriadau dyfeisiau? [open text]

13. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai offer tanwydd solet gael eu hailbrofi o bryd i'w gilydd ar ôl bod ar y farchnad, er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i gydymffurfio â safonau ansawdd aer ac effeithlonrwydd?
[Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod]

[Os yw'n cytuno'n gryf/cytuno]
Pa mor aml ydych chi'n meddwl y dylid ailbrofi?
- Bob 2 flynedd
- Bob 3 - 4 blynedd
- Bob 5 - 6 mlynedd
- Bob 7 mlynedd neu fwy
- Ddim yn gwybod

## Rhan 2 - Polisïau a Chwestiynau Ymgynghori ar gynigion labelu gorfodol

### Cynllun labelu gorfodol newydd ar gyfer offer tanwydd solet

Ar hyn o bryd mae angen label effeithlonrwydd ynni ar offer tanwydd solet (e.e. stofiau llosgi coed), sy'n dangos effeithlonrwydd yr allbwn gwres o'i gymharu â gwerth ynni'r tanwydd a ychwanegir. Nid yw'r label yma'n cynnwys unrhyw wybodaeth am allyriadau llygryddion aer. Fodd bynnag, mae nifer o gynlluniau gwirfoddol sy'n cael eu harwain gan y diwydiant yn darparu gwybodaeth am allyriadau.

Er mwyn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen ar gwsmeriaid i wneud dewisiadau gwybodus, gan gynnwys gwybodaeth am effeithiau llosgi domestig ar iechyd, ac i sbarduno rhagor o arloesi yn y diwydiant stofiau, rydym yn cynnig cyflwyno cynllun labelu stofiau gorfodol ar gyfer offer tanwydd solet newydd. Byddai'r label newydd yn cael ei arddangos ochr yn ochr â'r label effeithlonrwydd ynni presennol ac yn cynnwys nodwedd graddfa ardrethi sy'n adlewyrchu allyriadau mesuredig y cynnyrch a'r tanwyddau y profwyd ei ddefnydd ar eu cyfer.

Byddai'r label yn darparu gwybodaeth glir, safonol a chyson, a fyddai ar gael ar unwaith yn y man prynu, gan alluogi defnyddwyr i gymharu modelau a gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth am y cynnyrch glanaf i'w brynu. Ni fyddai'r broses labelu newydd yn effeithio ar offer sydd eisoes ar y farchnad, yn ogystal ag yng nghartrefi pobl. Fodd bynnag, byddai angen i unrhyw gyfarpar a roddir ar y farchnad ar ôl y dyddiad y daeth labelu'n orfodol gydymffurfio. Byddai offer sydd eisoes mewn siopau yn cael eu heithrio o'r darpariaethau newydd. Dim ond gydag un math o danwydd (pren fel arfer) y profir llawer o offer ond fe'u gwerthir fel "stofiau amldanwydd", gydag ategolion wedi'u darparu ar gyfer llosgi tanwyddau eraill. Byddai label clir gyda'r tanwydd(au) a ganiateir wedi'u rhestru arno yn cyfyngu ar yr arfer hwn ac yn cefnogi llosgi glanach.

Rydym yn ymgynghori ar ddyluniad label allyriadau drafft. Dyma brif nodweddion y label drafft:

- Graddfa sgôr A-C – mae hon yn debyg i'r raddfa effeithlonrwydd ynni A-G, ond fe'i defnyddir i ddangos faint o lygredd mae offer yn ei achosi
- Pictogramau/testun sy'n dangos y tanwyddau y mae'r stof wedi cael eu profi â nhw ac y caniateir eu defnyddio
- Datganiad clir am effeithiau llosgi domestig ar iechyd

Gallai ecolabeli annog dewisiadau mwy gwyrdd gan y gallai defnyddwyr dalu premiymau isel ar gyfer cynhyrchion sydd wedi'u labelu'n rhai eco. Mae tystiolaeth[15] bod cynlluniau lliwiau goleuadau traffig (fel y rhai a ddefnyddir yn yr enghreifftiau isod) yn effeithiol o ran cyfleu effaith amgylcheddol i ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae rhywfaint o dystiolaeth[16] o 'effaith eurgylch gwyrdd' lle mae eco-labeli'n gwella'r canfyddiad o gynnyrch y tu hwnt i'r hyn y mae'r eco-label yn ei ddisgrifio (e.e. gallai label carbon wella sut mae pobl yn meddwl am ddiogelwch cynnyrch). Gallai fod yn fuddiol cyflwyno'r labeli newydd hyn ochr yn ochr ag ymgyrchoedd cyfathrebu neu addysg bellach i wella effaith yr ecolabeli. Er bod y dystiolaeth yn gyfyngedig, rydym yn deall bod busnesau, ar y cyfan, yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ecolabeli a'u bod yn barod i'w mabwysiadu.[17]

Mae mynd i'r afael ag ansawdd aer yn elfen allweddol o genhadaeth y Llywodraeth i wella iechyd y genedl. Rydym yn deall bod pobl sy'n llosgi gartref yn cymryd sylw o negeseuon am effeithiau llosgi domestig ar eu hiechyd nhw eu hunain a'u teuluoedd. Felly, rydym yn cynnig y dylai'r label hefyd gynnwys datganiad clir yn tynnu sylw at yr effaith y mae llosgi tanwydd solet yn ei chael ar iechyd unigolion a'u teuluoedd.

Gall y rhan hon o'r label edrych fel y datganiad iechyd mewn print trwm yn yr enghraifft a nodir isod (neu amrywiad ar hyn): 'Cofiwch fod y cyfarpar hwn yn allyrru llygredd aer i'ch cartref ac o'i gwmpas a all niweidio eich iechyd.'

Byddai angen deddfwriaeth newydd ar gyfer yr opsiwn hwn. Byddai'r labelu newydd yn ychwanegol at y labelu presennol, ac nid yn ei ddisodli. Petai'r cynigion hyn yn cael eu datblygu, byddem yn ymgysylltu â'r diwydiant i bennu cynnwys a dyluniad terfynol y label.


---

[15] Rôl ecolabeli yn y llwybr tuag at sero net

[16] Rôl ecolabeli yn y llwybr tuag at sero net

[17] Rôl ecolabeli yn y llwybr tuag at sero net

Byddai angen penderfynu ar yr amser paratoi drwy ymgynghori â'r diwydiant gan ein bod yn ymwybodol bod deunydd pacio weithiau'n cael ei archebu flynyddoedd ymlaen llaw.




Cynigir mai Safonau Masnach yr awdurdod lleol perthnasol ym Mhrydain fyddai'r corff gorfodi ar gyfer y gofynion labelu newydd. Yng Ngogledd Iwerddon, byddai'r mesur hwn yn wirfoddol yn unig.

Er mwyn sicrhau bod cosbau am beidio â chydymffurfio yn gymesur â maint y busnes, rydym yn cynnig cyflwyno amrywiaeth o gosbau rhwng £300-£2000. Rydym hefyd yn ystyried cyflwyno cosb uwch ar gyfer ad-droseddwyr er mwyn atal diffyg cydymffurfio parhaus. Byddai'r rheoliadau newydd arfaethedig hefyd yn rhoi pwerau i Swyddogion Gorfodi fynd i mewn i eiddo ar adeg resymol, archwilio nwyddau, a mynnu bod pobl yn darparu gwybodaeth. Pan fo angen cymryd camau gorfodi, byddai'r awdurdod gorfodi hefyd yn cael codi tâl ar bobl am y costau yr aethant iddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau.

### Cymhwyso tiriogaethol

Ar gyfer labelu allyriadau, mae Atodlen 6 Deddf yr Amgylchedd 2021 yn caniatáu i Lywodraeth y DU sefydlu cynlluniau labelu. Byddai'r cynllun labelu arfaethedig yn cael ei roi ar waith ym Mhrydain Fawr dim ond o dan yr Atodlen hon gyda chytundeb Llywodraeth yr Alban a Llywodraeth Cymru. O dan Fframwaith Windsor, mae Gogledd Iwerddon wedi'i eithrio rhag gwneud y mesur hwn yn orfodol ar gyfer stofiau a roddir ar y farchnad, ac felly ni fyddai pobl sy'n rhoi stofiau ar y farchnad yn ddarostyngedig i'r cosbau uchod. Fodd bynnag, bydd cyflenwyr a gwerthwyr yn dal yn gallu labelu allyriadau ar gynnyrch yn wirfoddol.

Mae'n debygol y byddai labelu iechyd yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd er mwyn bod yn berthnasol ledled y DU gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a'r Adran gyfrifol yng Ngogledd Iwerddon.

## Cwestiynau am y cynllun labelu gorfodol newydd arfaethedig ar gyfer offer tanwydd solet

14. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chyflwyno cynllun labelu gorfodol ar gyfer offer tanwydd solet?
    [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod]
    Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

15. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y label enghreifftiol uchod yn cyfleu gwybodaeth am allyriadau llygredd aer cyfarpar tanwydd solet yn effeithiol?
    [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod]
    Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

16. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y label enghreifftiol yn rhoi gwybod i ddefnyddwyr yn effeithiol am y tanwyddau y caniateir eu defnyddio mewn cyfarpar tanwydd solet penodol?
    [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod]
    Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

17. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai labelu iechyd fod yn orfodol ar offer tanwydd solet?
    [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod].
    Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

18. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y label enghreifftiol uchod yn cyfleu'n effeithiol bod defnyddio offer tanwydd solet yn cael effaith ar iechyd defnyddwyr? [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod]
Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

19. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod y datganiad iechyd "Cofiwch fod y cyfarpar hwn yn allyrru llygredd aer a all niweidio eich iechyd" yn briodol? [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod].
Os ydych chi'n anghytuno, awgrymwch ddatganiad iechyd gwahanol [Blwch testun agored]

20. A oes unrhyw elfennau neu ystyriaethau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y fanyleb labelu neu'r dyluniad yn eich barn chi?

[Oes/Nac oes/ddim yn gwybod]. [Os oes] Pa ystyriaethau ydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys yn y fanyleb labelu neu'r dyluniad [blwch testun agored]

21. Ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno mai Safonau Masnach ddylai fod y corff gorfodi ar gyfer y gofynion labelu arfaethedig?
Cytuno, Anghytuno, Ddim yn gwybod
Os ydych chi'n anghytuno, rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ateb. [Open text box]

22. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid defnyddio amrywiaeth o gosbau rhwng £300-£2000 ar gyfer torri'r gofynion labelu newydd arfaethedig? [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod].
Os ydych chi'n anghytuno, rhowch opsiynau eraill [blwch testun agored]

23. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid cyflwyno cosb uwch o fewn yr ystod arfaethedig o £300-£2000 ar gyfer ad-droseddwyr er mwyn atal ymddygiad sy'n parhau i beidio â chydymffurfio?
[Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod].
Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

24. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai'r corff gorfodi allu mynd i mewn i safle ar adeg resymol, archwilio nwyddau a mynnu bod pobl yn darparu gwybodaeth?
[Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod].
Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

25. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylid caniatáu i'r awdurdod gorfodi godi tâl ar bobl am y costau yr aethant iddynt wrth gyflawni eu swyddogaethau?
[Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod].
Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

## Labelu iechyd gorfodol ar gyfer tanwyddau

Fel y nodwyd yn gynharach yn y ddogfen hon, rydym yn cynnig labelu gorfodol o ran yr effaith ar iechyd ar offer newydd.  Rydym o'r farn y byddai'n gyson ychwanegu labelu effaith iechyd at ddeunydd pacio tanwydd hefyd. Mae mynd i'r afael ag ansawdd aer yn elfen allweddol o genhadaeth y llywodraeth i wella iechyd y genedl. Rydym yn deall y gall llosgwyr gymryd sylw o negeseuon sy'n ymwneud ag effeithiau llosgi domestig ar eu hiechyd eu hunain a'u teuluoedd. Gan fod llosgwyr domestig yn prynu tanwydd yn gymharol aml, gallai labelu ar y cynhyrchion hyn gael mwy o effaith gan y bydd yn eu hatgoffa'n rheolaidd bod llosgi'r tanwyddau hyn yn cael effaith negyddol ar iechyd eu teulu a'u cymdogion.

Isod ceir rhai enghreifftiau o ddyluniadau label at ddibenion enghreifftiol yn unig:




Enghraifft A




Enghraifft B

Byddai angen penderfynu ar yr amser paratoi drwy ymgynghori â'r diwydiant gan ein bod yn ymwybodol bod deunydd pacio weithiau'n cael ei archebu flynyddoedd ymlaen llaw. Petai'r cynigion hyn yn cael eu datblygu, byddem yn ymgysylltu â'r diwydiant a chyrff anllywodraethol amgylcheddol i bennu cynnwys a dyluniad terfynol y label.

### Cymhwyso tiriogaethol

Mae'n debygol y byddai'r dewis hwn yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd er mwyn bod yn berthnasol ledled y DU gyda chytundeb Llywodraeth Cymru, Llywodraeth yr Alban, a'r Adran gyfrifol yng Ngogledd Iwerddon.

## Cwestiynau am y labelu iechyd gorfodol arfaethedig ar gyfer tanwyddau

26. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai labelu iechyd fod yn orfodol ar ddeunydd pacio tanwydd solet?
    [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; ddim yn gwybod].
    Rhowch unrhyw dystiolaeth sydd gennych i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

27. A oes unrhyw elfennau neu ystyriaethau ychwanegol y dylid eu cynnwys yn y fanyleb labelu neu'r dyluniad yn eich barn chi?
    [Oes; nac oes; ddim yn gwybod]
    [Os oes] Rhowch fanylion yr elfennau neu'r ystyriaethau eraill rydych chi'n meddwl y dylid eu cynnwys yn y fanyleb labelu neu'r dyluniad [Blwch testun agored]

28. Pa un o'r datganiadau iechyd canlynol sydd orau gennych chi, a pham?
    - Opsiwn A: Mae'r cynnyrch hwn yn achosi effeithiau negyddol ar iechyd
    - Opsiwn B Mae'r cynnyrch hwn yn cael effaith negyddol ar eich iechyd chi a'ch teulu
    - Opsiwn C: Gall llosgi tanwydd solet i wresogi eich cartref arwain at gyflyrau iechyd gwanychol, gan gynnwys clefyd cardiofasgwlaidd ac asthma, sy'n gallu arwain at farwolaeth gynamserol

    [Opsiwn A; Opsiwn B; Opsiwn C.]

29. Rhowch reswm dros eich dewis [testun rhydd]

30. Os byddai'n well gennych ddatganiad iechyd arall, nodwch hwn ac esbonio eich rhesymau
    [Open text box]

# Rhan 3 - Polisïau a chwestiynau ymgynghori ar gynyddu cosbau gorfodi

Ar hyn o bryd, mae gwerthu a chyflenwi glo, pren a thanwyddau solet wedi'u gweithgynhyrchu yn cael ei reoleiddio yn Lloegr gan Reoliadau Ansawdd Aer (Tanwyddau Solet Domestig) (Lloegr) 2020.

Nid oes cyfyngiadau cyfatebol ar hyn o bryd yng Nghymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon, y tu hwnt i'r Ardaloedd Rheoli Mwg a nodwyd.

Cyflwynodd y Safonau Tanwyddau Solet Domestig gyfyngiadau ar werthu tanwyddau penodol i'w defnyddio mewn anheddau domestig. Ym mis Mai 2021, cyflwynodd y ddeddfwriaeth gyfyngiadau ar bren sy'n cael ei werthu mewn niferoedd llai na 2m$^3$ yn Lloegr, gan fynnu bod ganddo gynnwys lleithder o 20% neu lai.  Mae cyfyngiad hefyd ar gyflenwi pren dros 2m$^3$ heb hysbysiad sy'n ymwneud â chynnwys lleithder (rheoliad 8 Rheoliadau DSF). Ar yr un pryd, daeth hefyd yn anghyfreithlon gwerthu MSFs a oedd yn allyrru mwg ar gyfradd o 5g neu fwy yr awr ac a oedd â chynnwys sylffwr o 2% neu fwy. Yn ogystal â hyn, o fis Mai 2021 ymlaen, dechreuodd y cyflenwad glo bitwminaidd (glo tŷ traddodiadol) gael ei ddiddymu'n raddol i'w ddefnyddio mewn anheddau domestig; mae gwerthu'r tanwydd hwn i'w ddefnyddio at ddibenion llosgi domestig wedi bod yn anghyfreithlon ers mis Mai 2023.

## Gorfodi Rheoliadau Tanwydd Solet Domestig

Ar hyn o bryd, mae'r Rheoliadau Tanwyddau Solet Domestig yn caniatáu rhoi Hysbysiad Cosb Benodedig o £300 i weithgynhyrchwyr tanwydd, cyflenwyr, dosbarthwyr neu fanwerthwyr sy'n torri'r gyfraith drwy gyflenwi tanwydd nad yw'n cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae hefyd yn darparu opsiwn troseddol, gan ganiatáu dirwy ddiderfyn drwy'r llysoedd pan fydd awdurdodau lleol o'r farn bod hyn yn briodol, gan gynnwys ar gyfer ad-droseddwyr.

Mae tystiolaeth yn awgrymu bod y diwydiant yn cydymffurfio'n dda â'r rheoliadau'n gyffredinol, ond mae nifer yr achosion gorfodaeth fel yr adroddir gan awdurdodau lleol yn isel[18]. Rydym wedi cael adroddiadau gan gyflenwyr efallai na fydd swm yr Hysbysiad Cosb Benodedig (£300) yn ddigon i atal hyn gan ei fod yn is na'r gost o ymuno â chynllun ardystio Ready to Burn. Mae cost gychwynnol ardystiad Ready to Burn ar gyfer pren tua £550 gyda ffioedd ailardystio blynyddol o tua £400 (y ddau yn cynnwys TAW) ar gyfer busnesau mwy. Mae busnesau llai yn talu tua £325 y flwyddyn, gydag elusennau'n talu tua

---

[18] Gwerthusiad o Reoliadau Ansawdd Aer (Safonau Tanwydd Solet Domestig) (Lloegr) 2020 a Monitro arferion llosgi domestig yn y Deyrnas Unedig - AQ1043

£260 y flwyddyn. Ar gyfer MSFs, y ffi ymgeisio newydd am danwydd yw £950 a TAW, a'r ffi ailardystio flynyddol yw £475 a TAW.

Rydym yn ymgynghori ar gynyddu'r gosb ar gyfer cyflenwyr sy'n torri'r Rheoliadau Tanwyddau Solet Domestig. Y gosb ar hyn o bryd yw £300, ac rydym yn cynnig cynyddu hyn i £2000. Mae hyn yn gymesur â'r ffi ardystio a'r niwed a achosir gan ansawdd aer gwael. Rydym hefyd yn ystyried cyflwyno cosb uwch ar gyfer ad-droseddwyr er mwyn atal diffyg cydymffurfio parhaus.

Byddem yn disgwyl i orfodaeth gynyddu dan yr opsiwn hwn, sy'n debygol o arwain at gynnydd yn nifer yr hysbysiadau cosb benodedig a gyhoeddir. Byddai'r opsiwn hwn yn gofyn am ddeddfwriaeth newydd i ddiwygio'r Rheoliadau Tanwyddau Solet Domestig.

Byddem yn disgwyl i'r manteision uniongyrchol o ran ansawdd aer fod yn isel o ran cilo tunnell o $PM_{2.5}$. Yn gyffredinol, byddem yn disgwyl i hyn wella cydymffurfiaeth â'r rheoliadau presennol.

Mae'r gosb arfaethedig yn berthnasol i dorri'r Rheoliadau Tanwyddau Solet Domestig ac unrhyw estyniad iddynt yn y dyfodol.

### Cymhwyso tiriogaethol

Mae Rheoliadau Ansawdd Aer (Tanwydd Solet Domestig) (Lloegr) 2020 yn gymwys yn Lloegr yn unig. Ar hyn o bryd nid oes cyfyngiadau cyfatebol yng Nghymru, yr Alban na Gogledd Iwerddon. Mae gan Lywodraeth Cymru ddiddordeb yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad ar y mesur hwn at ddibenion gwybodaeth gan nad oes rheoliadau o'r math hwn yng Nghymru ac nid yw'n bwriadu bwrw ymlaen â'r polisi ar hyn yn syth ar ôl yr ymgynghoriad. Mae DAERA a'r Adran Addysg yn fodlon ymuno ag ymgynghoriad canfod ffeithiau ar y mesur hwn i gefnogi'r gwaith o ddatblygu polisi yng Ngogledd Iwerddon ond nid ydynt yn bwriadu bwrw ymlaen â'r polisi ar hyn yn syth ar ôl ymgynghori. Dim ond Lloegr yw rhychwant tiriogaethol mwyaf tebygol yr hysbysiad cosb benodedig uwch o dan y Rheoliadau estynedig.

## Cwestiynau am Orfodaeth arfaethedig y Rheoliadau Tanwyddau Solet domestig

31. I ba raddau ydych chi'n cytuno y byddai cynyddu'r hysbysiad cosb benodedig i gyflenwyr o dan y Rheoliadau Tanwyddau Solet Domestig yn atal diffyg cydymffurfio?
    [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod].
    Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb. [Open text box]

32. Yn eich barn chi, beth ddylai cost hysbysiad cosb benodedig fod i gyflenwyr sy'n torri'r Rheoliadau Tanwyddau Solet Domestig?
    - £300

- £750
- £1000
- £2000

33. I ba raddau ydych chi'n cytuno y dylid cyflwyno cosb uwch ar gyfer ad-droseddwyr er mwyn atal diffyg cydymffurfio parhaus?

    [Cytuno'n gryf; cytuno; ddim yn cytuno nac yn anghytuno; anghytuno; anghytuno'n gryf; Ddim yn gwybod].

    Rhowch ragor o fanylion i gefnogi eich ymateb.

    [Open text box]

## Tystiolaeth ychwanegol

34. A oes gennych unrhyw dystiolaeth, data neu wybodaeth berthnasol ychwanegol y dylai Defra eu hystyried fel sail ar gyfer datblygu'r polisïau hyn?

    [Open text box]

# Geirfa

**Mae'r Eirfa hon yn darparu diffiniadau ar gyfer termau technegol a thermau eraill a ddefnyddir yn yr ymgynghoriad hwn.**

**Cyfarpar cymeradwy** - cyfarpar sydd wedi'i ardystio fel un sy'n bodloni'r terfynau allyriadau perthnasol, ac sy'n cael ei ganiatáu ar gyfer llosgi tanwyddau anawdurdodedig mewn Ardal Rheoli Mwg (SCA)

**Tanwydd cymeradwy** - (neu danwydd awdurdodedig) yw tanwydd yr ardystiwyd ei fod yn bodloni'r terfynau perthnasol o ran allyriadau a sylffwr, ac y caniateir ei ddefnyddio ar unrhyw gyfarpar mewn Ardal Rheoli Mwg (SCA).

**Glo** - cynnyrch mwyn wedi'i fwyngloddio'n naturiol sy'n cael ei losgi i gynhyrchu gwres. Mae hyn yn cynnwys glo bitwminaidd, a elwir hefyd yn lo tŷ traddodiadol. Mae gwerthu'r math hwn o lo at ddefnydd domestig wedi'i wahardd.

**Crynodiadau** - faint o lygredd sy'n bresennol yn yr atmosffer ar unrhyw adeg benodol (gellir ei gyfrifo ar gyfartaledd dros gyfnod o amser, er enghraifft 24 awr neu flwyddyn).

**Ecolabel** - yr arfer o farcio cynnyrch gyda label unigryw fel bod defnyddwyr yn gwybod bod eu gwneuthuriad yn cydymffurfio â safonau amgylcheddol cydnabyddedig

**Allyriadau** - faint o lygredd sy'n cael ei ryddhau i'r atmosffer.

**Gronynnau mân / $PM_{2.5}$** – gronynnau yn yr awyr (solid neu hylif) sydd â diamedr aerodynamig o ddim mwy na 2.5 micrometr mewn unrhyw ddimensiwn.

**Tanwyddau Solet wedi'u Gweithgynhyrchu (MSFs)** - tanwydd wedi'i weithgynhyrchu o lo, pren, deunyddiau sy'n deillio o blanhigion, cwyrau neu gynhyrchion petrolewm gyda chynhwysion eraill, at ddibenion hylosgi mewn safle domestig yn Lloegr, ond nid yw'n cynnwys tanwydd wedi'i eithrio. Rhaid i'r tanwyddau hyn fodloni safonau allyriadau a therfynau cynnwys sylffwr i'w gwerthu at ddefnydd domestig yn Lloegr.

**Tân agored** - agoriad mewn wal neu strwythur arall adeilad lle mae tân wedi'i gynnau, fel arfer gyda simnai i gael gwared ar fwg. Dim ond tanwyddau awdurdodedig y gellir eu defnyddio mewn tanau agored mewn Ardaloedd Rheoli Mwg.

**Ardal Rheoli Mwg (SCA)** - ardal sydd wedi'i datgan gan awdurdod lleol o dan Ddeddf Aer Glân 1993, lle mae cyfyngiadau ychwanegol ar losgi tanwydd solet.

**Stof/cyfarpar tanwydd solet** - gwresogydd gofod caeedig sydd (yng nghyd-destun yr ymgynghoriad hwn) yn llosgi tanwydd solet i gynhyrchu gwres, gan gynnwys, er enghraifft, stofiau llosgi coed.

**Sylffwr** - elfen gemegol a geir mewn llawer o gynhyrchion petroliwm. Pan gaiff ei losgi, mae'n ffurfio'r nwy asidig sylffwr deuocsid.

**Coed** - tanwydd naturiol a geir o goed wedi'u cwympo. Rhaid ei sychu i 20% o gynnwys lleithder neu is i'w werthu mewn cyfeintiau o lai na 2 fetr ciwbig yn Lloegr.